

Gofynnwch am / Please ask for: Mason Powell

Fy Nghyf/ My Ref:
IF900-046.PN

Eich Cyf/Your Ref:

Dyddiad/ Date:
19/12/2025

Annwyl Berchennog/Feddiannydd,

**IF900-046 - Cynllun Llwybrau Mwy Diogel yn y Gymuned Cwm-parc –
Hysbysiad Cyhoeddus**

Efallai y byddwch chi eisoes ar ddeall bod yr Awdurdod wedi cynnal ymarfer ymgynghori Cyn-statudol yn ddiweddar, a hynny er mwyn nodi barn y cyhoedd ar gynigion i wella diogelwch priffyrdd a gwella llwybrau cerdded i gerddwyr ledled Cwm-parc.

I ailadrodd yr wybodaeth a ddarparwyd yn y llythyrau blaenorol; mae'r Cyngor yn cynnig cyflwyno cyfres o fesurau yng Nghwm-parc yn rhan o'r cynllun Llwybrau Mwy Diogel yn y Gymuned (SRIC). Nod y cynigion hyn yw gwella diogelwch ar y ffyrdd, yn enwedig i blant ysgol a cherddwyr, a chefnogi teithio llesol o fewn y gymuned.

Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r ysgol a'i disgyblion ac mae'n cynnwys y gwelliannau canlynol:

- Culhau blaenoriaeth mewn mannau amrywiol ar hyd Heol y Parc i fyrhau pellteroedd croesi a rheoli cyflymder cerbydau.
- Arwyneb gwastad wedi'i godi ar Heol y Parc yn union y tu allan i fynedfa'r ysgol isaf, i ddarparu man croesi ar yr un lefel.
- Gosod adeiladwaith ar Stryd Tallis y tu allan i fynedfa'r ysgol uchaf, er mwyn lleihau pellteroedd croesi a gwella diogelwch.
- Cyflwyno arhosfan bysiau newydd ar ben isaf Heol y Parc.
- Cyflwyno amrywiaeth o welliannau i gyffyrdd ledled Cwm-parc, er mwyn gwella gwelededd a diogelwch cerddwyr.
- Cyflwyno gwelliannau i lwybrau troed mewn sawl lleoliad ledled Cwm-parc, er mwyn creu llwybrau i gerddwyr sy'n fwy diogel.
- Cyflwyno cyfyngiadau aros a llwytho mewn mannau allweddol i amddiffyn llinellau gwelededd a chynnal symudiadau cerbydau diogel yng ngoleuni'r newidiadau arfaethedig i'r ffordd gerbydau.

Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth
Highways, Streetcare and Transportation
Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

Ffôn/Tel: 01443 425001

Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCIOB
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth | Director for Highways, Streetcare and Transportation Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection



Yn sgîl y sylwadau a dderbyniwyd gan drigolion Cwm-parc yn ystod yr Ymarfer Ymgynghori Cyn-Statudol, mae'r Awdurdod wedi cynnal adolygiad o'r cynigion cychwynnol ac, lle'n bosibl, wedi newid y cynigion yn seiliedig ar adborth y cyhoedd mewn ymdrech i gynyddu'r gallu i drigolion barcio ger eu heiddo heb esgeuluso diogelwch ar y ffordd:

- Mae'r estyniad arfaethedig ar Stryd Tallis wedi'i ymestyn i'r ffordd gerbydau, a thrwy hynny'n gwella llinellau gweledd ymhellach ac yn dileu'r angen am linellau melyn dwbl o amgylch y darn yma o'r ffordd.
- Mae'r llinellau melyn dwbl arfaethedig ar ochr orllewinol y gyffordd rhwng Heol y Parc a'r ffordd fynediad sy'n arwain at gefn Neuadd y Parc wedi'u lleihau gan tua 5 metr i ddarparu lle parcio ychwanegol.
- Mae darn tua 18 metr o hyd o'r llinellau melyn dwbl arfaethedig ar ochr ddeheuol Heol y Parc, i'r dwyrain o Neuadd y Parc, wedi cael eu disodli gan gyfyngiadau Aros a Llwytho cyfyngedig a fydd yn caniatáu parcio rhwng 7pm a 7am, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, a pharcio heb gyfyngiadau ar ddydd Sul.
- Mae amser gweithredu'r cyfyngiadau llwytho wedi'i leihau o'r 8:00am – 6:00pm a gynigiwyd yn wreiddiol, fel y byddant bellach mewn grym 7:00am – 9:30am a 2:00pm – 6:00pm.

Mae manylion llawn y cynigion hefyd ar gael ar wefan y Cyngor (www.rctcbc.gov.uk/traffig). Bydd copïau o'r cynigion hefyd ar gael i'w gweld yn y Ganolfan IBobUn, 1 Llys Cadwyn, Stryd y Taf, Pontypridd, CF37 4TH ac yng Llyfrgell Treorci, Stryd yr Orsaf, Treorci, CF42 6NN. Hoffech chi gopi papur o unrhyw gynlluniau? E-bostiwch gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk

Mae cyfnod o hysbysiad cyhoeddus yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig yn ofyniad cyfreithiol, lle mae manylion y cynigion yn cael eu nodi. Dyma gyfle i aelodau o'r cyhoedd wneud unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau sydd gyda nhw, a hynny mewn dull ffurfiol.

Pe hoffech chi nodi sylwadau, anfonwch nhw'n ysgrifenedig erbyn **16 Ionawr 2026**, ar gyfer sylw Rheolwr y Gwasanaethau Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig, Llawr 2, Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu drwy e-bostio: gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk

Pe hoffech chi ragor o wybodaeth, mae croeso i chi anfon e-bost ataf i'r cyfeiriad e-bost uchod. Fel arall, pe hoffech chi drafod y materion yma dros y ffôn, dylid gwneud ceisiadau am alwad yn ôl i'r un cyfeiriad e-bost.

Yn gywir,



Mason L. Powell, MEng (Hons.)

Uwch Swyddog | Senior Engineer

Uned Rheoli Traffig | Traffic Management

Gofynnwch Am/ Please ask for: Mason Powell

Fy Nghyf/ My Ref:
IF900-046.PN

Eich Cyf/ Your Ref:

Dyddiad/ Date:
19/12/2025

Dear Owner/Occupier,

IF900-046 - Cwmparc Safer Routes in the Community (SRIC) Scheme – Public Notice

As you may be aware, the Authority has recently undertaken a Pre-statutory consultation exercise to gauge public opinion on proposals to improve highway safety and enhance pedestrian walking routes throughout Cwmparc.

To reiterate the information provided in the previously provided letters; the Council proposes to introduce a series of measures in Cwmparc as part of the Safer Routes in the Community (SRIC) initiative. These proposals aim to improve road safety, particularly for school children and pedestrians, and to support active travel within the community.

The scheme has been developed in partnership with the school and its pupils and includes the following improvements:

- The introduction of priority narrowings at various points along Park Road to shorten crossing distances and manage vehicle speeds.
- A raised flat-top table on Park Road directly outside the lower school access to provide an at-grade crossing point.
- A buildout on Tallis Street outside the upper school access to reduce crossing distances and improve safety.
- The introduction of a new bus stop on the lower end of Park Road.
- Various junction improvements throughout Cwmparc to enhance visibility and pedestrian safety.
- Footway improvements at multiple locations across Cwmparc to create safer pedestrian routes
- The introduction of waiting and loading restrictions at key points to protect sight lines and maintain safe vehicle movements in light of the proposed carriageway alterations.

Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth
Highways, Streetcare and Transportation
Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

Ffôn/Tel: 01443 425001

Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCIOB

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth | Director for Highways, Streetcare and Transportation Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection



In light of the comments received from residents of Cwmparc during the Pre-statutory Consultation exercise, the Authority has undertaken a review of the initial proposals and, where possible, altered the proposals based on public feedback in an effort to maximise the ability for residents to park near their property without compromising road safety.

- The proposed buildout on Tallis Street has been extended into the carriageway, thereby further improving sight lines and negating the need for double yellow lines around the buildout.
- The proposed double yellow lines on the western side of the junction between Park Road and the access road leading to the rear of Park Hall have been reduced by approximately 5 metres to provide additional parking provision.
- An approximately 18 metre section of the proposed double yellow lines on the southern side of Park Road, east of Park Hall, have been replaced with Prohibition of Waiting and Loading restrictions that will allow overnight parking between 7pm-7am, Monday – Saturday and unrestricted parking on Sundays.
- The loading restrictions' operational time has been reduced from the originally proposed 8:00am – 6:00pm, such that they shall now be in force 7:00am – 9:30am and 2:00pm – 6:00pm.

Full details of the proposals are available on the Council's website (www.rctcbc.gov.uk/traffic). Copies of the proposals will also be available for inspection at the One4All Centre, 1 Llys Cadwyn, Taff Street, Pontypridd, CF37 4TH and in Treorchy Library, Station Road, Treorchy, CF42 6NN. Requests for printed copies of specific plans may be directed to trafficservices@rctcbc.gov.uk

A period of Public Notice outlining the proposed changes is a legal requirement; during which time, details of the proposals are advertised to provide opportunity for members of the public to formally raise any observations or objections they may have.

If you wish to object to these proposals, you should do so in writing by **16th January 2026**, to the Traffic Services Manager, Traffic Management, Floor 2, Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH or alternatively by email to trafficservices@rctcbc.gov.uk

If you require any further information, please do not hesitate to contact me via the above email address. Alternatively, should you wish to discuss these matters over the telephone, requests for a call back may be made by email to the same email address.

Yours Sincerely,



Mason L. Powell, MEng (Hons.)
Uwch Swyddog | Senior Engineer
Uned Rheoli Traffig | Traffic Management